Ysgol Iolo Morganwg

Polisi Gwaith Cartref

Beth yw gwaith Cartref?

Unrhyw weithgaredd y gofynnir i ddisgyblion ei wneud y tu allan i oriau gwersi arferol. Fel arfer fe fydd y gwaith yn gysylltiedig â'r gwaith ysgol fel tasg.
Paratoi
Atgyfnerthu
Parhau

Pam fod gwaith Cartref yn bwysig yn Ysgol Iolo Morganwg ?

1. Gall helpu disgyblion wneud cynnydd cynt wrth ddysgu.

2. Gall alluogi disgyblion i ddatblygu'r arfer o weithio ar ben eu hunain heb bresenoldeb athro neu ddisgyblion eraill ar yr un llaw, a'r ddisgyblaeth allanol o amserlen, cloch yr ysgol ayyb ar y llaw arall. Mae'r ffordd hon o weithio yn angenrheidiol yng nghyfnod diweddarach addysg uwchradd a chynradd.

3. Gall gweithio gartref ddarparu'r amodau tawel a phreifat sydd eu hangen ar gyfer gwaith meddwl a chreadigol o bob math.

4. Gall ganiatáu ymarfer gwerthfawr o sgiliau a ddysgwyd yn y dosbarth.

5. Gall alluogi disgyblion i ddefnyddio deunyddiau a ffynonellau eraill o wybodaeth sydd ddim bob amser ar gael yn y dosbarth.

6. Gall gynnwys rhieni a phobl eraill yng ngwaith y disgybl sydd o fudd i bawb.

7. Gall roi cyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil hir dymor a gwaith arall.

Gwaith Cartref a'r Teulu
Yn Ysgol Iolo Morganwg teimlwn y dylai gwaith cartref atgyfnerthu ac

adolygu dysgu dosbarth yn ogystal ag adeiladu cysylltiad cartref-ysgol da. Fe fydd y gwaith cartref yn gysylltiedig â chytundeb ysgol a chartref.

Ystyrir y polisi gwaith cartref yn rhan annatod o gytundeb cartref-ysgol. Ynddi adlewyrchir ethos a gwerthoedd yr ysgol. Yn ogystal â darparu fframwaith ar gyfer partneriaeth, ceir yma gyfle unigryw i gynnig arweiniad i rieni nad ydynt yn medru'r Gymraeg ac yn debyg o ddioddef o hunan werth isel wrth ymdrin â gwaith cartref mewn iaith a diwylliant "estron". Mae pob darn o waith cartref yn gyfle i ni ddysgu ac addysgu rhieni yn ogystal a phlant.

Sut mae'r ysgol yn helpu disgyblion i roi trefn ar waith ?

Ceisiwn sicrhau bod ein cyfarwyddiadau ynglŷn â'r gwaith cartref yn glir i bawb yn y dosbarth, a bod gan bob disgybl ddigon o amser i nodi'r hyn sydd i'w ddisgwyl ganddynt.

Wrth osod y gwaith cartref, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y plentyn yn deall y dasg ofynnol. Os oes cwestiwn yn codi gydag unrhyw riant ynglŷn â gwaith cartref, yna cysylltwch â'r Ysgol; bydd aelod o'r staff yn falch i'ch cynorthwyo.

Anelwn at farcio neu ymateb i waith cartref yn gyson, ac mewn modd sydd o gymorth i ddisgyblion.

Cyngor i rieni

Sut all rhieni helpu gyda'r gwaith cartref ?

Sicrhewch fod manylion y gwaith cartref wedi'u cofnodi'n gyson a chlir.

Ysgrifennwch eich sylwadau ar y daflen gwaith cartref gyda'ch llofnod ac unrhyw sylwadau.

Helpwch eich plentyn i drefnu ei amser/hamser fel na adewir y gwaith hyd y funud olaf, neu hyd yn oed anghofio amdano.

Ceisiwch sicrhau bod amodau gwaith addas ar gael yn y cartref.

Dangoswch ddiddordeb positif a gweithredol yng ngwaith eich plentyn pan fydd adref, yn hytrach na mynnu eu bod yn cwblhau eu gwaith.

Gadewch i ni wybod am unrhyw broblemau'n ymwneud a gwaith cartref na allwch chi eu datrys. Ymddengys, efallai, bod eich plentyn

yn gwneud gormod o waith, neu ddim digon, neu ei fod/bod yn gweld y gwaith yn rhy hawdd neu'n rhy anodd. Cysylltwch yn gyntaf â'r athro/athrawes dosbarth a fydd yn falch i'ch cynorthwyo.

Gweithio'n annibynnol

Wrth i ddisgyblion fynd ymlaen trwy'r ysgol gynradd mae pwyslais y gwaith cartref yn newid tuag at ddysgu sy'n fwyfwy annibynnol. Mae gweithio annibynnol yn magu cyfrifoldeb ac arloesedd. Nid oes gwerth i waith lle bydd rhiant yn cwblhau gwaith y plentyn neu'n cyfrannu heb gydweithio. Rhaid annog rhieni / gwarcheidwad i gynnal y plentyn mewn gwahanol ffyrdd. O dro i dro fe fydd angen i'r athrawon gynnig strategaethau i ddisgyblion a rhieni ac ymdrin â'r sefyllfaoedd yma.

Faint o waith cartref ?

Argymhellir y canlynol fel uchafswm gan Estyn. Disgwylir i bob disgybl dderbyn lleiafswm o un darn o waith cartref bob wythnos

Blwyddyn 1 a 2	1 awr yr wythnos
Blwyddyn 3 a 4	1-2 awr yr wythnos
Blwyddyn 5 a 6	30 munud bob dydd

METHU CYFLWYNO GWAITH CARTREF

Disgwylir i waith cartref a gwblhawyd gael ei gyflwyno'n brydlon, yn enwedig ym Mlwyddyn 6. Mae hyn yn rhoi profiad gwerthfawr i ddisgyblion o weithio o fewn terfynau amser ac mae'n hyrwyddo'r staff â'u hamserlenni marcio. Oni chyflwynir gwaith cartref, cymerir y camau priodol:

- bydd yr athro dosbarth yn trafod gyda'r disgybl i ganfod a oes rhesymau da am fethu cyflwyno'r gwaith.
- gallai'r Pennaeth gysylltu â rhieni;(Llythyr)

Gwaith cartref: Llinell gymorth

Gall rhieni ddefnyddio llinell gymorth sy'n rhoi cyngor ar waith cartref Cymraeg. Cwmni Cymad sy'n rhedeg y gwasanaeth a chost y galwadau yw pris galwad leol er y bydd costau o ffonau symudol yn amrywio.

Rhif y llinell gymorth yw 0871 230 0029.

Ysgol Iolo Morganwg

Homework Policy

What is Homework ?
Activities that we ask children to complete outside the hours of normal classroom activity. The work will usually be connected with school work and might be :

Preparation work
Practice and consolidation work
Extension activity

Why is homework important at Ysgol Iolo Morganwg?

1. It can help pupils make more rapid progress with their learning.

2. It helps the pupil develop good working habits that are independent of the teacher and the school supervision. This way of working will become more important as your child grows and is a vital skill in Secondary, Further education and beyond

3. Working at home can provide the quiet atmosphere condusive to much creative work and encourage your child to discover his or her preferred learning styles.

4. It's valuable practice of classroom skills

5. It should encourage children to become aware of alternative sources of information beyond the classroom **and** to see the further relevance and use for these classroom skills.

6. It is key to involving parents and family adults in the process of learning to learn

7. It allows teachers to set extended research and term pieces

Homework and the family
At Ysgol Iolo Morganwg we feel it is important to establish positive attitudes to learning at an early age. The weekly homework encourages the home school partnership. Because having a child in Welsh medium education can be difficult for non-Welsh speakers, the homework scheme provides guidelines, practice and further activities for parents and pupils on line along with a comprehensive explanation in English for parents. In this way, homework not only extends the pupils learning but forms a vital bridge between home and school embedded in the Home School Agreement.

How does the school help pupils organise their work ?

Every effort is made to ensure that pupils are clear about what is expected of them in homework. The online homework can be accessed by pupils and a further explanation of the work will be available here. Should any further question or difficulty arise the Head or a member of staff will be more than happy to advise.

We aim to mark all homework as soon as possible in the usual positive and constructive manner.

Advice for Parents

How can parents help with homework?

Ensure that the homework details are clear and tidy for return

Write any comments on the homework sheet or drop us a line.

Help your child to organise his /her time so that homework isn't left until the last minute or even forgotten.

Try to make sure that your child has somewhere appropriate to work at home

Show an active and positive interest in your child's homework instead of just focusing on finishing the work.

Let us know about any problems. Perhaps your child has too much work to do, or not enough. Perhaps you feel the work is too easy, or too hard . Please contact us. Your class teacher is trained to help you (as well as your child).

Independent work
As pupils progress through Junior school the emphasis on independent working changes. Independent work encourages responsibility as well as innovation. There is little or no value to a piece of work completed

by a parent. Parents will be encouraged to support their child in other ways. Where necessary teachers will provide strategies and guidelines to help with these situations.

The following guidelines are published by Estyn. Each pupil is expected to receive a minimum of one piece of work per week

Year 1 and 2	1 hour per week
Year 3 and 4	1 - 2 hours per week
Years 5 and 6	30 min each day

Failure to complete homework

Completed homework should be handed in punctually especially in Year 6. This gives pupils the valuable experience of working to deadlines and ease staff marking burdens. If work is not handed in the appropriate steps will be taken

- The class teacher will investigate to ascertain reasons
- The Headteacher may contact parents

Parents' Welsh homework helpline

Parents can access a helpline that offers homework advice for English speaking parents whose children are learning Welsh.

The service, staffed by former teachers, offers advice on how to help with homework set in Welsh and assistance with vocabulary.

Calls are charged at local rates but calls from mobile phones may vary.

The helpline can be accessed on 0871 230 0029.